

Taflen Ffeithiau 17: Cyngor Defnyddiol

Mae'r rhan fwyaf o Daliadau Uniongyrchol yn cael eu cynnal yn dda iawn, mae digon o wybodaeth, cyngor a chymorth ar gael i'ch helpu chi i gael y mwyaf o'ch cefnogaeth. Fodd bynnag, weithiau gall unigolion brofi anawsterau y gellir eu hosgoi drwy ddilyn rhai rheolau syml.

Gofynnwch am Gyngor Cyn Diswyddo Staff

Hyd yn oes os yw unigolyn wedi gwneud rhywbeth yr ydych chi'n ei ystyried yn gamymddwyn difrifol, peidiwch â diswyddo'r unigolyn cyn gofyn am gyngor, a dilyn y cyngor hwnnw. Bydd gan eich darparwr yswiriant linell gymorth, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r darparwr a dilyn y cyngor a roddir. Os nad ydych yn dilyn cyngor y darparwr yswiriant, efallai na fydd eich yswiriant yn ddilys.

Cadwch eich Gwaith Papur

Hyd yn oed os nad ydych yn dda iawn am gadw trefn ar waith papur, dylech gael bocs neu ffeil i gadw bob dim sy'n ymwneud â'ch Taliadau Uniongyrchol.

Gofynnwch am Gymorth

Beth bynnag yw'r broblem, mae'r cyngor eisiau eich helpu chi i gael y mwyaf o'ch Taliadau Uniongyrchol gyda chyn lleied o anghyfleustra i chi â phosibl. Rydym eisiau i chi fwynhau'r manteision o Daliadau Uniongyrchol. Felly os oes angen cyngor, cymorth neu wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu.

Rhowch Wybod i Ni

Os ydych chi'n credu eich bod yn derbyn gormod neu ddim digon o arian i ddiwallu eich anghenion gofal, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl'.

Os ydych yn cyflogi Cymorthyddion Personol

- Sicrhewch eich bod yn cael geirdaon a bod gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael eu cynnal.
- Sicrhewch fod gennych gontract cyflogaeth bob amser.
- Sicrhewch fod gennych swydd-ddisgrifiad fel eich bod yn glir o ran yr hyn yr ydych eisiau eich staff ei wneud.
- Trefnwch yswiriant atebolrwydd cyflogwyr.
- Defnyddiwch ddarparwr gwasanaethau'r gyflogres megis Ymddiriedolaeth Penderels neu becyn tâl.
- Gofynnwch i Ymddiriedolaeth Penderels eich cefnogi â recriwtio staff ac unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'ch Taliadau Uniongyrchol.

Os ydych yn defnyddio Asiantaeth

- Gofynnwch am contract a'i wirio i wneud yn siŵr ei fod yn deg cyn ei lofnodi. Gwiriwch bethau megis y rhybudd sydd angen i chi ei roi i ganslo'r ymweliad a'r ffioedd a godir os ydych yn gwneud hynny.
- Peidiwch â bod ofn dweud wrth yr asiantaeth beth yr ydych ei eisiau a gofyn am y gweithwyr yr ydych yn eu ffafrio. Efallai na fydd yr asiantaeth yn gallu darparu beth yr ydych ei eisiau'n union ond efallai y byddwch yn gallu cyd-drafod.
- Gofynnwch i'r asiantaeth anfon anfoneb atoch bob pedair wythnos. Gall fod yn ddryslyd os yw'r asiantaeth yn anfon anfoneb yn fisol.

Pawb

- Sicrhewch eich bod yn gwybod beth i'w wneud os yw eich cymhorthydd personol neu weithiwr o'r asiantaeth yn absennol. Sicrhewch fod gennych gynllun ar gyfer absenoldeb salwch ac argyfyngau annisgwyl.
- Mynychwch gyfarfodydd cefnogi Taliadau Uniongyrchol a chwrdd ag eraill ar Daliadau Uniongyrchol.
- Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â Chyngor Sir y Fflint a bydd rhywun ar gael i'ch helpu.

Yn bwysicaf oll, peidiwch â themlo fel bod rhaid i chi wneud popeth ar eich pen eich hun. Mae llawer o bobl yn barod i'ch cefnogi chi yn ôl yr angen, felly mae croeso i chi gysylltu.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk